**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

# Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)

Mai 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8154
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

# Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)

Mai 2010

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Rhaid i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried unrhyw rai o'r materion a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2 a chyflwyno adroddiad ar yr ystyriaethau hynny a gall ystyried unrhyw rai o'r materion a nodir yn Rheolau Sefydlog 15.3 a 15.6 a chyflwyno adroddiad ar yr ystyriaethau hynny.

## Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ym mis Mehefin 2007 (fel y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth). Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn benodol Rheol Sefydlog 15. Mae'r rhain i'w cael yn www.cynulliadcymru.org

## Aelodau'r Pwyllgor

| *Aelod Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Janet Ryder (Cadeirydd) | Plaid Cymru | Gogledd Cymru |
| Alun Davies | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mike German | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| William Graham | Plaid Geidwadol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Rhodri Morgan | Llafur | Gorllewin Caerdydd |

# Cynnwys

**Argymhellion y Pwyllgor** ........ **5**

**Adroddiad ar y Darpariaethau Is-ddeddfwriaeth yn y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)** ...... **6**

Rheolau Sefydlog ........ 6

Cefndir ........ 6

Ystyriaethau'r Pwyllgor ........ 7

Pwerau a Gweithdrefnau Gwneud Is-ddeddfwriaeth ........ 7

*Adran 2 - Dyletswydd i lunio strategaeth ........ 8*

*Adran 3 - Gwybodaeth briodol a chyngor priodol ........ 8*

*Adran 5 – Darpariaeth bellach ynghylch strategaethau ........ 9*

*Adran 6 – Cyflwyno strategaeth ddrafft i Weinidogion Cymru ........ 9*

*Adran 8 – Gorchmynion a rheoliadau ........ 9*

Materion sy'n codi o dystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor ........ 10

*Defnyddio Gweithdrefn Gadarnhaol neu Negyddol ar gyfer Gwneud Is-ddeddfwriaeth ........ 10*

*Materion Eraill ........ 11*

*Egwyddorion Cyffredinol y Mesur ........ 13*

**Tystion** ........ **14**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ........ **15**

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i'w gweld isod yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

**Argymhelliad 1.** Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai'r rheoliadau cyntaf a wneir drwy ddefnyddio'r pwerau yn y Mesur arfaethedig gael eu gwneud gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. tud 11

**Argymhelliad 2.** Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod y Mesur arfaethedig yn cael ei ddiwygio i roi pŵer i Weinidogion ddiwygio, drwy benderfyniad cadarnhaol, y rhestr o awdurdodau perthnasol a nodir yn Adran 2(3). tud 12

**Argymhelliad 3.** Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried sut y gallai rheoliadau o dan Adran 4 gael eu drafftio i gynnwys dyletswydd mwy penodol mewn cysylltiad â threfniadau ymgynghori â gofalwyr. tud 12

**Argymhelliad 4.** Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad gytuno i egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig. tud 13

# Adroddiad ar y Darpariaethau Is-ddeddfwriaeth yn y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)

## Rheolau Sefydlog

1. Caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried y materion canlynol a chyflwyno adroddiad arnynt o dan Reolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol:

- Mae Rheol Sefydlog 15.6 (ii) yn datgan y caiff y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ystyried 'pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig … sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru,' a chyflwyno adroddiad arno.
- Er nad yw'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor i wneud sylwadau ar rinweddau'r polisi y bwriada'r Mesur arfaethedig ei weithredu, mae Rheol Sefydlog 15.6(v) yn datgan y caiff y Pwyllgor ystyried 'unrhyw fater deddfwriaethol gyffredin ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru,' a chyflwyno adroddiad arno.

2. Diben yr adroddiad hwn yw llywio dadl Cyfnod 1 y Cynulliad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a'r cyfnodau deddfwriaethol dilynol.

## Cefndir

3. Cyflwynwyd y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)[1] ar 25 Ionawr 2010 gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol. Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 25 Ionawr 2010. Cafodd datganiad deddfwriaethol ei wneud gan y Dirprwy Weinidog yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 26 Ionawr 2010[2].

[1] http://www.cynulliadcymru.org/ms-ld7876-e.pdf (Mesur fel y'i cyflwynwyd ar 25 Ionawr 2010)
[2] Cofnod y Trafodion (Y Cofnod) – 26 Ionawr 2010 – tudalenau 59-77

4. Cafodd y Mesur arfaethedig ei gyfeirio i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 i'w ystyried. Cyhoeddodd y Pwyllgor alwad am dystiolaeth[3] ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) a ddaeth i ben ar 18 Mawrth 2010. Dechreuodd proses Cyfnod 1 (ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chytuno arnynt) ar 3 Chwefror. Rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno'i adroddiad erbyn 21 Mai 2010.

5. Caiff cefndir polisi'r Mesur arfaethedig ei grynhoi yn y Memorandwm Esboniadol[4] fel a ganlyn –

> "1.1 Diben y Mesur hwn yw galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu i gyflwyno gofyniad newydd ar y GIG ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru ("yr awdurdodau perthnasol") i weithio mewn partneriaeth i baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaeth ar y cyd mewn perthynas â gofalwyr.
>
> 1.2 Bydd y strategaeth yn darparu ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor i ofalwyr ac ar gyfer ymgynghori effeithiol gan yr awdurdodau perthnasol â gofalwyr wrth wneud penderfyniadau am ddarparu gwasanaethau i ofalwyr neu i'r person y gofelir amdano, neu ar gyfer y naill neu'r llall ohonynt."

## Ystyriaethau'r Pwyllgor

6. Ystyriodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) ar 11 Mawrth 2010 a chafodd dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar[5] gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol. Ceir rhestr o'r papurau a gafodd eu hystyried yn y tabl ym mharagraff 33 o'r adroddiad hwn.

## Pwerau a Gweithdrefnau Gwneud Is-ddeddfwriaeth

7. Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pwerau i alluogi Gweinidogion Cymru i weithredu a nodi manylion y broses o baratoi a chyhoeddi strategaethau ar gyfer gofalwyr mewn rheoliadau a gorchmynion.

8. Bydd y gweithdrefnau is-ddeddfwriaeth yn destun y weithdrefn negyddol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y rhesymeg

---

[3] http://www.cynulliadcymru.org/lc5-carers_strategies_wales_measure-e.pdf
[4] http://www.cynulliadcymru.org/ms-ld7876-em-e.pdf
[5] Y Cofnod – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol (CA) – 11 Mawrth 2010 paragraffau 153-281

dros ddefnyddio is-ddeddfwriaeth, ym mhob un o'r achosion isod, wedi ei seilio ar:

- yr angen i osgoi rhoi manylion amhriodol ar wyneb y Mesur, yr angen am hyblygrwydd i ddiwygio'r mathau o wybodaeth y dylid eu darparu i ofalwyr a'r angen am hyblygrwydd i ddiwygio'r manylion sydd i'w cynnwys yn y strategaeth, yn ôl y gofyn; ac
- mae'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig yn ymwneud yn bennaf â'r trefniadau gweinyddol ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r strategaeth.

9. Caiff pwerau gwneud is-ddeddfwriaeth eu cynnwys yn yr adrannau a ganlyn:-

*Adran 2 - Dyletswydd i lunio strategaeth*

10. Mae adran 2 (1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol baratoi a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut y byddant yn cydweithio i ddarparu gwybodaeth briodol a chyngor priodol i ofalwyr ac i sicrhau yr ymgynghorir â gofalwyr ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Mae isadran (3) yn rhestru'r "awdurdodau perthnasol". Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o "awdurdodau perthnasol". Heb bwerau gwneud is-ddeddfwriaeth i ddiwygio'r rhestr o "awdurdodau perthnasol", byddai angen Mesur pellach i ddiwygio'r rhestr yn y dyfodol.

*Adran 3 - Gwybodaeth briodol a chyngor priodol*

11. Mae adran 3(2) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi darpariaethau pellach ynghylch beth sy'n wybodaeth briodol a chyngor priodol.

*Adran 4 - Ymgynghori*

12. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth, drwy gyfrwng rheoliadau, yn pennu'r camau y gall awdurdodau perthnasol eu cymryd, neu sy'n rhaid iddynt eu cymryd, er mwyn ymgynghori â gofalwyr o dan adran 2 (1) (b) ac (c) (Dyletswydd i lunio strategaeth).

*Adran 5 – Darpariaeth bellach ynghylch strategaethau*

13. Mae adran 5(1) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi darpariaeth bellach o ran paratoi a chyhoeddi strategaeth o dan adran 2. Mae adran 5(2) yn rhestru'r mathau o ddarpariaeth y gellid eu gwneud. Mae adran 5(3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi sefydliad y GIG yn awdurdod arweiniol at ddiben cydlynu a goruchwylio gwaith paratoi a chyhoeddi'r strategaeth, ac unrhyw adolygiad dilynol ohoni.

*Adran 6 – Cyflwyno strategaeth ddrafft i Weinidogion Cymru*

14. Mae adran 6(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaethau ynghylch sut a phryd y mae'n rhaid i'r awdurdodau cyfrifol gyflwyno eu strategaethau i Weinidogion Cymru, a'u cyhoeddi.

*Adran 8 – Gorchmynion a rheoliadau*

15. Mae adran 8 yn darparu bod unrhyw bŵer i wneud gorchmynion neu reoliadau i'w gwneud drwy offerynnau statudol a hefyd yn darparu'r pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol a chant gynnwys darpariaethau cysylltiedig, atodo, canlyniadol, darfodol, trosiannol neu arbed., fel y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried sy'n addas.

16. Mae isadran (3) o adran 8 yn darparu y bydd unrhyw offeryn statudol a wneir o dan y Mesur yn destun y weithdrefn negyddol h.y. maent yn destun dirymu o ganlyniad i benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol. Mae paragraff 5.3 o'r Memorandwm Esboniadol yn datgan:

> "oherwydd natur yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig, sy'n ymwneud yn bennaf â'r trefniadau gweinyddol ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r strategaeth, bydd y ddeddfwriaeth yn destun y weithdrefn negyddol."

17. Daw darpariaethau'r Mesur i rym ar y dydd neu'r dyddiau y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ei benodi. Nid yw'r gorchmynion hyn yn destun unrhyw weithdrefn benodol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth.

## Materion sy'n codi o dystiolaeth ac argymhellion y Pwyllgor

*Defnyddio Gweithdrefn Gadarnhaol neu Negyddol ar gyfer Gwneud Is-ddeddfwriaeth*

18. Fel y nodir uchod, drwy rinwedd Adran 8(3) o'r Mesur arfaethedig, bydd **unrhyw is-ddeddfwriaeth** a gaiff ei gwneud o dan ei ddarpariaethau **yn cael eu gwneud gan y weithdrefn negyddol**. Mae'r weithdrefn hon yn galluogi Gweinidogion i wneud is-ddeddfwriaeth heb gymeradwyaeth y Cynulliad, er y gall y Cynulliad, wedyn, bleidleisio i ddirymu'r ddeddfwriaeth dan sylw.

19. Y dewis arall i'r weithdrefn negyddol yw'r weithdrefn 'penderfyniad cadarnhaol'. Mae hyn yn golygu na all yr is-ddeddfwriaeth ddod i rym nes y bydd wedi cael ei thrafod yn y Cynulliad a'r Cynulliad wedi pleidleisio i'w chymeradwyo.

20. Mewn adroddiadau blaenorol[6] rydym wedi argymell mabwysiadu'r egwyddor bod y weithdrefn gadarnhaol yn cael ei defnyddio pan fydd Gweinidogion Cymru yn ceisio pwerau i wneud newidiadau sylweddol mewn polisi drwy reoliadau.

21. Natur y Mesur hwn yw galluogi. Mae'n cynnwys 10 adran ac nid yw'n fwy na phum tudalen o hyd. Pwyntiau dyrys y Mesur yw'r pwerau eang iawn mae'n eu cynnwys sy'n caniatáu i Weinidogion gyfeirio awdurdodau perthnasol i baratoi strategaethau i gynorthwyo gofalwyr.

22. Bydd y gyfres gyntaf o reoliadau a wneir o dan y Mesur yn, nodi:

- yr awdurdodau a gaiff eu rhoi o dan ddyletswydd i lunio strategaeth - a2(1);
- beth yw gwybodaeth a chyngor priodol i ofalwyr - a3(2);
- y camau y mae'n rhaid i awdurdodau eu cymryd i ymgynghori â gofalwyr – a4; a
- y darpariaethau mwy manwl (os oes rhai) y dylai strategaethau eu hystyried – a5(1)

---

[6] Gweler: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-perm-leg/bus-committees-legislation-dissolved/bus-committees-third-sleg-home/bus-committes-third-sleg-current_inquiries.htm ac, yn fwy diweddar, http://www.cynulliadcymru.org/cr-ld7812-e.pdf )

23. Ar y cyfan, rydym yn fodlon i'r weithdrefn penderfyniad negyddol gael ei defnyddio ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth a nodir yn y Mesur arfaethedig.

24. Fodd bynnag, er y gellir dadlau bod y Mesur ei hun yn nodi cyfeiriad polisi eang iawn, mae manylion y modd y caiff y Mesur ei weithredu'n ymarferol yn aneglur iawn. Eglurodd y Gweinidog wrthym yn ei thystiolaeth lafar[7] nad yw'r broses o lunio rheoliadau wedi dechrau eto a'u bod yn annhebygol o gael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol tan o leiaf tymor yr hydref 2011.

25. Bydd hyn ar ôl etholiad cyffredinol nesaf y Cynulliad ac mae'n hollol bosibl y gallai Gweinidog newydd neu lywodraeth newydd benderfynu defnyddio'r pwerau yn y Mesur hwn mewn ffordd wahanol iawn i'r rhai a fwriedir gan y weinyddiaeth bresennol, waeth pa mor amhenodol ydynt. Fel mae'r Mesur wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, gallai hyn arwain at weithredu newidiadau pwysig mewn cyfeiriad polisi heb unrhyw gyfle gwirioneddol i'r Cynulliad eu hystyried a'u trafod yn fanwl.

26. O gofio'r diffyg sicrwydd am y ffordd y caiff y pwerau yn y Mesur eu defnyddio, yr amser hir iawn cyn y gellir disgwyl i'r manylion hyn gael eu cadarnhau, a'r ffaith y bydd y pwerau'n cael eu defnyddio gyntaf gan Lywodraeth a gaiff ei hethol ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad, credwn fod angen dadl lawn yn y Cyfarfod Llawn ar y modd y mae'r pwerau yn y Mesur hwn i gael eu defnyddio. Am y rheswm hwnnw, credwn y dylai'r rheoliadau cyntaf a wneir o dan y Mesur ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol fel y gall y Cynulliad cyfan eu hystyried a'u cymeradwyo.

**Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai'r rheoliadau cyntaf a wneir drwy ddefnyddio'r pwerau yn y Mesur arfaethedig gael eu gwneud gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.**

*Materion Eraill*

27. **Adran 2(3)** - Mae'r adran hon yn rhestru'r sefydliadau hynny a gaiff eu hystyried yn "awdurdodau perthnasol" at ddibenion y Mesur. Fel y nodwyd eisoes, nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o "awdurdodau perthnasol" a

[7] Y Cofnod – CA – 11 Mawrth 2010 paragraffau 188-194

byddai angen deddfwriaeth sylfaenol bellach i ddiwygio'r rhestr o awdurdodau perthnasol yn y dyfodol.

28. Rydym yn pryderu bod y Llywodraeth yn bod yn rhy gyfyng ar yr achlysur hwn. Nid yw y gallu i wneud newidiadau i'r rhestr o awdurdodau perthnasol drwy is-ddeddfwriaeth yn ymddangos yn hyblygrwydd afresymol. Efallai y caiff ei ystyried yn wendid yn y Mesur, hyd yn oed, ei fod yn cyfyngu gormod ar hyn a gallai rwystro datblygiad cydweithredu dymunol rhwng yr awdurdodau a restrir ac awdurdodau eraill a allai gynnig swyddogaethau teg yn y maes hwn.

**Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod y Mesur arfaethedig yn cael ei ddiwygio i roi pŵer i Weinidogion ddiwygio, drwy benderfyniad cadarnhaol, y rhestr o awdurdodau perthnasol a nodir yn Adran 2(3).**

29. **Adran 4 – Dyletswydd i ystyried barn gofalwyr** – Nid oes darpariaeth benodol ar wyneb y Mesur nac i'w gynnwys yn y Rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ystyried neu gymryd sylw o farn unrhyw sylwadau a gânt gan ofalwyr yn dilyn ymgynghoriad. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth lafar[8] pwysleisiodd y Gweinidog nad oedd angen darpariaeth o'r fath gan ei bod yn rhan o unrhyw ddyletswydd i ymgynghori bod yn rhaid i'r ymgynghoriadau hynny fod yn gywir ac yn ystyrlon.

30. Rydym yn fodlon derbyn sicrwydd y Gweinidog ac a gadarnhawyd gan gynghorwyr cyfreithiol y Gweinidog a'n cynghorwyr cyfreithiol ein hunain. Fodd bynnag, nodir bod y Gweinidog wedi cytuno mewn tystiolaeth lafar i ystyried a fyddai'n bosibl cynnwys dyletswyddau mwy penodol mewn cysylltiad â threfniadau ymgynghori wrth ddrafftio rheoliadau o dan Adran 4 o'r Mesur.[9]

**Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried sut y gallai rheoliadau o dan Adran 4 gael eu drafftio i gynnwys dyletswydd mwy penodol mewn cysylltiad â threfniadau ymgynghori â gofalwyr.**

---

[8] Y Cofnod – CA – 11 Mawrth 2010 paragraff 245
[9] Y Cofnod – CA – 11 Mawrth 2010 paragraffau 252-253

*Egwyddorion Cyffredinol y Mesur*

31. Yn amodol ar eich barn ar yr uchod, rydym yn fodlon y dylai'r Cynulliad gytuno i egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac y dylai symud ymlaen i ystyriaeth Cyfnod 2 fanylach mewn Pwyllgor.

**Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad gytuno i egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.**

# Tystion

32. Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 11 Mawrth 2010. Gellir gweld trawsgrifiad llawn o'r sesiwn dystiolaeth yn www.cynulliadcymru.org

11 Mawrth 2010

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas AC | Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru |
| John Carter | Pennaeth y Gangen Gofalwyr ac Oedolion sy'n Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru |
| Huw Rowlands | Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

33. Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth ysgrifenedig a ganlyn. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.cynulliadcymru.org

| Dogfen | Cyfeirnod |
|---|---|
| Y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) | CA(3)-08-10(p2) |
| Memorandwm Esboniadol | CA(3)-08-10(p3) |
| Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol | CA(3)-08-10(p4) |
| Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog yn gofyn am nodiadau briffio | CA(3)-08-10(p6) |
| CA(3)-08-10(p7) – Ymateb y Gweinidog ac Atodiadau 1 a 2 | CA(3)-08-10(p7)<br>CA(3)-08-10(p7) – Atodiad 1<br>CA(3)-08-10(p7) – Atodiad 2 |
| Gwahoddiad gan y Cadeirydd i'r Gweinidog roi tystiolaeth | CA(3)-08-10(p8) |
| Gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) | CA(3)-12-10(p5) |